


ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 20: GWASTADEDDAU JEFFREYSTON

Lleoliad:

Mae'r ardal hon yn ne-ddwyrain Sir Benfro am y ffin â'r Parc Cenedlaethol i'r dwyrain ac i'r gorllewin.



Yr olygfa i'r gorllewin o fan i'r de o Jeffreyston



Yr olygfa i'r gogledd-ddwyrain o Stephens Green



Yr olygfa i mewn i hen Faes Awyr Tredeml

Disgrifiad Cryno:

Ffurfiwyd yr ardal hon yn gyffredinol o ddoldir amaethyddol isel bryniog, darnau bach gwasgareddig o goetir a phentrefi achlysurol gan gynnwys East Williamston, Broadmoor, Sageston a Begeli / Cilgeti, Pentlepoir a Wooden yn cael eu cysylltu ban briffyrdd a rhwydwaith o lonydd rhwng cloddiau.

Nodweddion Allweddol

- Y dirwedd ddaearogol yw ardal eang o dir bryniog, wedi'i rhannu gan nentydd, ar ben brigiad o gerrig clai a thywodfeini Carbonifferaidd (haenau glo gan mwyaf) gyda phrosesau rhewlifol a

ffinrewlifol blaenorol wedi gadael dyddodion mewn dyffrynnoedd a chafnau marian mewn mannau. Mae darnau bach o Galchfaen carbonifferaidd yn y dwyrain sy'n cynnwys chwareli blaenorol a phyllau benthg.

- Gwasgaredig i raddau helaeth yw'r patrwm anheddu. Mae anheddau mwy gan gynnwys Sageston, Begeli a Chilgeti ar hyd priffordd yr A477. Mae'r rhain yn rhannol gysylltiedig â mwyngloddio blaenorol ac, yn fwy diweddar, twristiaeth. Draw o briffyrdd, mae anheddau bach, ffermydd a thai annedd ar wahân yn britho tirwedd cefn gwlad.
- Mae'r dirwedd yn ffurfio ardal eang o gymeriad tebyg o gaeau pori, llai'n gyffredinol gyda lonydd deniadol rhwng cloddiau a gwrychoedd uchel yn torri ar eu traws ac yn cynnwys ardaloedd cysylltiedig â phriffyrdd y datblygwyd mwy arnynt. Mae rhai ardaloedd yn ffurfio brithwaith o dir amaeth a choetir yn enwedig tua'r gorllewin lle mae planhigfeydd conwydd yn ffurfio darnau o goetir a choed aeddfed mewn gwrychoedd aeddfed. Mae ardaloedd o barcdir mewn tawelwch gwledig er bod anheddau ynddynt.
- Mae'r ardal yn cynnwys peth eiddo carreg a rendro traddodiadol, a llawer o adeileddau diweddar sydd wedi defnyddio deunyddiau mwy modern fel brics, blociau carreg gyda rendro cerrig mân. Mae cyfran fawr o gytiau amaethyddol o flociau, fframwaith dur a thoeau llenfetel. Maent yn ffurfio grŵp helaeth ond cyffredinol isel o adeiladau yn y dirwedd.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal hon yn ffurfio rhan o'r tir amaeth isel bras a chymunedau Saesneg i'r de o'r Landsger. Erbyn hyn, maes hyfforddiant yw hen faes awyr Tredeml a, thra colodd ei adeiladau milwrol, mae ffordd a rhedfeydd y maes awyr yn dal yno. Ymhlith dylanwadau diwylliannol modern mae atyniadau ymwelwyr yn Folly Farm, ac Oakwood a Bluestone gerllaw sy'n cael eu hysbysu ledled y wlad ac sydd wedi dylanwadu ar yr amgyffred o ddiwylliant poblogaidd a disgwyliadau ymwelwyr.
- Mae'r dirwedd hanesyddol yn yr ardal nodwedd hon yn gyfoethog ac amrywiol. Caiff holl fathau o gaeau eu cynrychioli gan gynnwys llain-gaeau canoloesol cysylltiedig â thir comin ac anheddau canoloesol yn Redberth, East Williamston, Cold Inn a Reynalton a llain-gaeau creiriol mewn mannau eraill. Mae nifer mawr iawn o safleoedd archeolegol, o bob cyfnod, a llawer o Adeiladau Rhestredig. Mae henebion rhestredig yn cynnwys cyn hanes, oes yr haearn, cestyll ac eglwysi canoloesol ac ôl-ganoloesol gan gynnwys lefelydd glo segur.
- Tirwedd cynefinoedd yn bennaf yw glaswelltir wedi'i wella i raddau mawr, gyda darnau llai o laswelltir wedi'i led-wella a phorfa gorslyd, prysgwydd, planhigfeydd conwydd a choetir llydanddail lled-naturiol o fewn cynefinoedd gwlypach yn gyffredinol ar hyd cyrsiau dŵr.

Rhinweddau Allweddol

Tirwedd deniadol o dir pori isel bryniog yn ffurfio rhan o dapestri moethus o anheddiad, hanes ac archeoleg yn cael ei difetha gan safleoedd carafanau / gwersylla o gwmpas pentrefi a pheilonau mawr sy'n croesi'r dirwedd. Mewn anheddau mwy, mae teimlad prysur, datblygedig gydag ardaloedd adeiledig o ddatblygiadau modern o ansawdd gwael a ffyrdd yn bwysicaf wrth greu'r amgyffred o'r ardal. Nid yw'r datblygiad a seilwaith modern, gwasgarog yn creu fawr ddim ymdeimlad o le. Mae golygfeydd deniadol o dirwedd wledig oddi mewn, gan gynnwys caeau amaethyddol, parcdir a rhostir yn ogystal â golygfeydd benthg o Ddaugleddau ger Caeriw, yn creu teimlad arfordirol cysylltiedig â'r afon lanw yma ac yn ychwanegu at yr ymdeimlad lleol o le. I'r de ac i'r dwyrain mae golygfeydd allan i'r arfordir yn gyfyngedig, ond mae agosrwydd y trefi glan môr yn y Parc Cenedlaethol yn dylanwadu fwyfwy ar yr ardal, ac mae cysylltiad â'r arfordir. Yn gyffredinol mae safleoedd carafanau sefydlog a theithiol ar wahân ac ar ymylon pentrefi draw o'r A478, er bod effaith gronol i'w gweld mewn mannau. Ger yr A478, mae meysydd carafanau'n helaeth ac yn fasnachol. Maent yn tueddu i fod yn fawr, masnachol ac amlwg dros ben yn y dirwedd. Ymhlith dylanwadau diwylliannol modern mae atyniadau ymwelwyr ffyniannus o fri cenedlaethol.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Cafodd datblygiadau a llety ymwelwyr modern, gan gynnwys safleoedd carafanau teithiol a sefydlog eu datblygu ac mae effaith gronnol i'w gweld mewn amryw anheddau ac yn unigol tuag at yr arfordir.
- Mae'r ardal hon yn darparu safleoedd parhaol ar gyfer Sipsiwn a Chrwydriaid ar hyd yr A477 ac yng Nghilgeti.
- Mae peilonau mawr yn croesi'r dirwedd gan gysylltu'r datblygiadau ynni yn yr Aber gyda'r rhwydwaith ynni ehangach.
- Gwelwyd dwysáu graddfa'r dirwedd amaethyddol gan arwain at grwpiau mawr o adeiladau amaethyddol sy'n dal mewn lle da yn dirwedd yn gyffredinol.
- Mae ffyrdd osgoi a gwelliannau i briffyrdd wedi cyfrannu at lifo traffig yn rhydd ar y rhwydwaith priffyrdd traws Ewropeaidd.
- Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy'n gyfyngedig yn yr ardal ac nid ydynt yn gyffredinol yn drech.
- Mae arwyddocâd hanesyddol i feysydd awyr yr Ail Ryfel Byd yn yr ardal.



Maes carafanau yn Llan-fair



Safle pebyll a theithiol i'r gogledd o Gumfreston

Y Dyfodol

- Tebygol o weld pwysau ychwanegol am ddatblygiadau cysylltiedig â thwristiaeth oherwydd agosrwydd at atyniadau mawr ac ardaloedd arfordirol twristaidd.
- Posibilrwydd dwysáu arferion amaethyddol a rhagor o effaith ar y dirwedd trwy gyflwyno llety mawr ar gyfer anifeiliaid.
- Posibilrwydd cynnydd sylweddol mewn llygredd goleuni cysylltiedig â thwristiaeth, amaethyddiaeth, datblygu priffyrdd ac ymestyn anheddau.



Yr olygfa i'r dwyrain o bont Caeriw



Mae'r ffordd 'A' yn torri trwy'r ardal

Pethau Sensitif Allweddol

- Mae cymeriad y dirwedd wledig yn agored i niwed o ddatblygiadau mewn mannau amhriodol a allai erydu cymeriad a bod yn oramlwg. Gallai'r rhain gynnwys datblygiadau cysylltiedig â thwristiaeth neu amaeth.
- Mae effaith gronol safleoedd carafanau teithiol a sefydlog i'w gweld, ac yn enwedig ger yr A477.
- Dylid cynnal effaith ar yr amgyffred o'r dirwedd fel brithwaith amaethyddol gydag ychydig o ddatblygiad draw o anheddau.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Cadw cymeriad brithwaith o dir amaeth a choetir llawer o'r ardal sy'n diffinio'i chymeriad ynghyd â'r amgyffred o ychydig ddatblygiad.
- Ystyried priodoldeb planhigfeydd conwydd presennol yn y dirwedd a'r gallu i'w disodli gan goetir llydanddail o'u cwmpo.
- Ystyried yn ofalus effaith datblygiadau ychwanegol cysylltiedig â thwristiaeth ar gymeriad y dirwedd a'r olygfa, gan gynnwys carafanau a llety ymwelwyr arall ac atyniadau ymwelwyr.
- Cydnabod a chadw arwyddocâd hanesyddol hen feysydd awyr yr Ail Ryfel Byd yn Nhredeml a Chaeriw a sicrhau bod unrhyw ddefnydd yn y dyfodol yn ystyriol o'r meysydd awyr blaenorol ac adeiladau maes awyr sydd wedi goroesi.



Mae atyniadau ymwelwyr yn yr ardal yn cynnwys yr uchod, ac eraill.

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: ACT 28 Daugleddau; ACT 1 Arfordir Cyfannedd Saundersfoot; ACT 2 Dinbych-y-pysgod

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 21: PENALUN

Lleoliad:

Yn ne-ddwyrain Sir Benfro ac i'r gogledd a'r gorllewin o'r Parc Cenedlaethol.



Yr olygfa o'r Ffordd Las tua'r gogledd gyda'r ardal hon yn y blaendir



Lôn gul y Ffordd Las yn darparu golygfeydd cyfyngedig allan



Golygfa o ymyl Penalun a'r Ffordd Las o'r ffordd B i'r dwyrain

Disgrifiad Cryno:

Mae'r ardal hon yn canoli ar lethrau gogleddol y Ffordd Las ac Afon Ritec, dyffryn agored bach yn rhedeg rhwng Dinbych-y-pysgod i'r dwyrain a St Florence i'r gorllewin ac yn ffurfio tirwedd amaethyddol agored a chynefinoedd y glannau'n bennaf. Mae pentref Penalun a Gwersyll Penalun y Weinyddiaeth Amddiffyn gydag adeiladau milwrol a'r maes tanio gerllaw ynddi. Hefyd mae priffordd yr A4139 a rheilffordd yn mynd drwy'r ardal.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaear yn bennaf yw Hen Dywodfaen Coch yn ffurfio crib amlwg sy'n rhedeg yn gyffredinol rhwng dwyrain a gorllewin ac yn ffurfio nodwedd arwyddocaol o'r dirwedd. Ar yr ymyl dwyreiniol

Ile mae am y ffin â'r Parc Cenedlaethol, mae'n ffurfio rhan o gylch ehangach o fasnau afonydd arfordirol, bellach dan ddylanwad corstir a chorsleoedd (Cwm Ritec) yn cynrychioli llyn / morlyn blaenorol mewn aber boddedig gyda rhwystr twyni tywod y Burrows tua'r de'n ei wahanu o'r môr.

- Mae ffermydd gwasgaredig achlysurol yn britho llawer o'r patrwm anheddu. Anheddiad Penalun yw'r unig anheddiad o faint yn yr ardal, ynghyd â maes carafanau, clwb golff a gwersyll a maes tanio milwrol sydd wedi dylanwadu'n gryf ar gymeriad datblygedig yr ardal. Tra bo Penalun yn cadw bythynnod traddodiadol yn y canol, trefnwyd tai annedd eraill mwy modern mewn lleiniau mwy rheolaidd yn hytrach nag ar hyd ffyrdd mewn patrwm anheddu mwy traddodiadol.
- Ffurfiwyd y dirwedd o dir isel bryniog agored a ffordd las o gaeau bach gyda choed aeddfed a gwrychoedd a chloddiau wedi tyfu'n wyllt yn eu terfynau.
- Yn ddiwylliannol mae'n ffurfio rhan o ardal o dir amaeth bras a chymunedau Saesneg islaw llinell cestyll amddiffynnol y Landsger. Ar yr ymyl dwyreiniol, y dylanwadau ar yr ardal yw ehangu meysydd carafanau, cwrs golff a llwybrau bygis sy'n edrych yn wahanol.
- Mae cynefinoedd yn adlewyrchu defnydd pori amaethyddol llawer o'r tir ac mae cyfran fawr yn laswelltir wedi'i wella, gyda llawer llai o dir â, a llai fyth yn ffurfio coetir lled-naturiol neu borfa. Mae rhai rhywogaethau LBAP cyffredin yn debygol o fod yn bresennol. Mae darnau bach o goetir tua'r gorllewin yn ogystal â darn hirgul yn y dwyrain, gan gynnwys tir wedi'i reoli ar gyfer twristiaeth / adloniant. O fewn y patrwm caeau rheolaidd mae coed aeddfed mewn gwrychoedd a lleiniau cysgodi.
- Mae'r cofnod archeolegol, gan gynnwys henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig, yn adlewyrchu'r patrwm anheddu gwasgaredig ac yn crynhoi ym Mhenalun, gan gynnwys adeiladau carreg o gwmpas yr eglwys ganoloesol a'r Ardal Gadwraeth. Mae'r elfennau archeolegol mwyaf arwyddocaol yn gynhanesyddol, canoloesol ac ôl-ganoloesol, gan gynnwys henebion Cristnogol cynnar. O fewn yr amrywiaeth yn y dirwedd mae caeau rheolaidd ac afreolaidd mawr, a llain-gaeau sy'n nodweddu'r gorllewin ond a ddiraddiwyd mewn mannau eraill.
- Mae'r briffordd o Ddinbych-y-pysgod i'r dwyrain yn mynd drwy ran ddeheuol yr ardal, tra bo'r ffordd las yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith priffyrdd lleol ar hyd y terfyn deheuol.

Rhinweddau Allweddol

Mae'r dirwedd fryniog yn cyfyngu ar olygfeydd benthyg o'r arfordir ond, i'r dwyrain, mae toeau Dinbych-y-pysgod yn creu cefnlen ddramatig i'r arfordir a'r forwedd o fannau uwch yn arbennig. O'r ffordd las, mae golygfeydd i'r gogledd ac i'r de'n cadarnhau arwyddocâd y Ffordd Las fel nodwedd o'r dirwedd ac yn ddiwylliannol. Gweledol yw dylanwad yr arfordir, yn hytrach na seiniau ac aroglau treiddiol, ond mae prinder datblygiad adeiledig yn cyfrannu at lonyddwch yr ardal ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le. Tra collodd Penalun lawer o'i gymeriad traddodiadol a golwg a sŵn y briffordd, y rheilffordd a'r maes carafanau'n difetha ar adegau, mae'r pentref yn elwa ar edrych allan i gyfeiriad golygfeydd deniadol o'r arfordir ac ar ei amgylchedd llechweddol gwledig.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae datblygiad preswyl a chysylltiedig â thwristiaeth / adloniadol modern wedi erydu cymeriad gwledig traddodiadol llawer o'r ardal hon, a chyflwyno cysylltiadau diwylliannol modern.
- Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, gan gynnwys tyrbinau gwynt, i'w gweld o'r Ffordd Las, er bod golygfeydd yn gyfyngedig mewn mannau.

- Daeth datblygu Penalun, meysydd carafanau a gwersyll y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r gogledd o'r A4139 â rhywfaint o ddatblygiad nad yw'n gydnaws â theimlad gwledig annatblygedig yr ardal yn gyffredinol draw o'r arfordir.



Yr olygfa allan i'r de-orllewin o'r ffordd las i gyfeiriad Lystep



Pentref Penalun

Y Dyfodol

- Fe all gwersyll a maes tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddibynnu ar newidiadau yn strwythur a lleoliad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y blynyddoedd a ddaw, gyda phosibilrwydd pwysau i ailddatblygu o ganlyniad.
- Pwysau cynyddol am ddatblygiad cysylltiedig ag adloniant a thwristiaeth mewn ardaloedd agos at y Parc Cenedlaethol.
- Pwysau ychwanegol i ddatblygu ynni adnewyddadwy sy'n elwa ar natur agored y ffordd las.
- Mae llawer o'r tir isel yma ar y glannau ac fe all llifogydd ddwysáu ac ehangu'r cynefin hwn i diroedd pori.



Craidd hanesyddol Penalun o'r rheilffordd tua'r de



Golygfa adwy cae o'r safle carafanau i'r gorllewin o Benalun

Pethau Sensitif Allweddol

- Dwysáu neu ymestyn meysydd carafanau a'u gwelededd yn y dirwedd.
- Mae ymdeimlad o ddinoethiad ar hyd y Ffordd Las a golygfeydd agored pell mewn perygl o ddatblygiad, gan gynnwys datblygiad tyrbinau.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Dylid cadw'r dylanwadau pensaernïol traddodiadol ym mhentref Penalun yn ogystal â golygfeydd arfordirol a choetiroedd ar gyrion y pentref i gynorthwyo diffinio'i gymeriad.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau twristiaeth yn y dyfodol, yn enwedig meysydd carafanau ac adeiladau modern, mewn lle derbyniol ac yn ymdoddi yn y dirwedd i leihau'r effaith i'r eithaf.
- Rheoli ymlediad yr helygen lwyd i gynefinoedd glaswelltir gwerthfawr.



*Safle Penalun y Weinyddiaeth
Amddiffyn*



*Datblygiad modern ym
Mhenalun*



*Nid yw dwyrain Penalun yn
effeithio ar y gorwel*

ACT Awdurdodau Cyfagos
PCNPA: ACT 2 Dinbych-y-pysgod; ACT 4 Maenorbŷr / Freshwater East

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 22: ABERDAUGLEDDAU

Lleoliad:

Mae'r ACT hon ar lan ogleddol Aber Cleddau ac i'r de o Hwlfordd. Ehangodd y dref i gynnwys Steynton, Hakin a Blackbridge.



Yr olygfa i'r gorllewin o'r Rhathlan



Charles Street o'r dwyrain



Priflwybr yr A4076 i Aberdaugleddau o'r gogledd

Disgrifiad Cryno:

Tref Aberdaugleddau, gan gynnwys Steynton, Hubberston, Hakin a Blackbridge, sy'n ffurfio'r ardal hon. Mae'n cynnwys diwydiant, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus a Glannau Aberdaugleddau (Marina Aberdaugleddau) yn ogystal â rhesi o adeiladau Sioraidd traddodiadol wrth galon y dref, sy'n cadw'i phatrwm grid trefnus gwreiddiol o'r 18^{fed} ganrif. Crynhowyd datblygiad manwerthu a masnachol ynghanol y dref, y marina a pharc manwerthu Haven's Head yn Hubberston Pill. Yn gyffredinol mae diwydiant mewn safleoedd bach yma ac

acw drwy'r dref, mewn parciau busnes ac ar y glannau. Mae datblygiad preswyl modern ar gyrion y dref.

Nodweddion Allweddol

- Mae Aberdaugleddau'n ardal o ddatblygiad trefol ac ychydig nodweddion daearegol naturiol sy'n aros er mai 'hen dywodfaen coch' (dyddodion Silwraidd a lleidfeyni) yw'r creigwely.
- Dechreuodd y dref fel porthladd morfila yn y 1790au ac mae'n parhau fel porthladd pysgota a marina. Ehangodd y dref yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif ac, erbyn hyn, mae'n cynnwys anheddau hŷn Priordy (Pill Priory), Hubberston a Steynton.
- Adeiladwyd tai rhes deulawr traddodiadol yn dyddio o orffennol llewyrchus y dref (rhwng tua 1800 a 1900) yn ddeniadol o garreg a brics wedi'u rendro. Fodd bynnag, tai modern sydd bennaf yn y dref bellach.
- Mae cofnod archeolegol Aberdaugleddau'n gyfoethog ac amrywiol, gyda thystiolaeth o weithgaredd dynol o gyfnod Oes yr Haearn hyd heddiw, gan gynnwys safle Priordy Pill, magnelfa gynau mawr o'r 19eg ganrif yng Nghaer Hubberston ac iard longau. Yr elfennau archeolegol mwyaf arwyddocaol yw patrwm grid strydoedd y dref ganolog o'r 18^{fed} ganrif (1790au), adeiladau'r cyfnod sy'n ganolog i'r Ardal Gadwraeth, ac archeoleg ddiwydiannol y dociau. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau trillawr, Sioraidd yn bennaf, ar hyd ochr ogleddol y briffordd drwy'r dref yn edrych dros yr harbwr a'r aber.
- Troswyd rhan fawr o'r iard longau'n farina. Llauer o'r adeiladau cysylltiedig â'r dociau gwreiddiol dymchwelwyd, er bod ychydig wedi goroesi yn enwedig yn y pen gorllewinol.
- Cyfyngedig yw cynefinoedd yn y cylch adeiledig gyda llecynnau glas yn cael eu ffurfio'n gyffredinol o safleoedd amwynder a glaswelltir wedi'i wella, a pheth prysgwydd trwchus yn aros. Ychydig o goetiroedd a choed sydd. Fe all rhai rhywogaethau LBAP cyffredin fod yn bresennol.
- Mae'r arfordir yn ffurfio rhan o barth rhynglanwol lletach o laid / tywod neu raeau / cerrig crynion yn bennaf gyda rhai clogwyni caled a phlanhigion ac anifeiliaid arwyddocaol.
- Yr A4076 yw'r fynedfa i Hwlfordd. Mae llwybr cenedlaethol yr arfordir yn mynd drwy'r dref ac mae'n caniatáu mynediad i gefn gwlad gyfagos.

Rhinweddau Allweddol

Saif craidd hanesyddol Aberdaugleddau uwchlaw'r dociau ond gwael yw'r cysylltiad rhyngddynt. Oherwydd bod llawer o draffig yn defnyddio'r A4076, mae'r dref yn cadw teimlad prysur. Mae'r berthynas hanesyddol a chyson ag Aber Cleddau'n dylanwadu'n drwm ar yr ymdeimlad o le. Datblygodd gweithgaredd morwrol yn raddol o dref forfila'r 1790au a'i phatrwm grid, trwy weithgaredd morwrol diwydiannol y 19^{eg} ganrif ddiweddar, i amrywiaeth o weithgareddau adloniadol a hamdden yn ystod yr 20^{fed} ganrif. Darparodd yr arallgyfeirio hwn amgylchedd deniadol o adloniant a hamdden lle gall trigolion ac ymwelwyr fwynhau golygfeydd o'r Aber. Mae golygfeydd allan tua'r de ar draws yr Aber o bwys diwylliannol ac yn dal dan ddylanwad diwydiant y môr. Fodd bynnag, mae datblygiad wedi dod â llygredd goleuni sylweddol, gan gynnwys llygredd goleuni cysylltiedig ag ysgolion i'r gogledd o'r dref. Mae golygfeydd i mewn i Aberdaugleddau'n gyfyngedig ac, o'r dwyrain, dan ddylanwad tyrbinau gwynt mawr gerllaw. Ceidw'r dref ymdeimlad cryf o le, seiliedig ar ei gorffennol morol diwydiannol ac, ynghyd â Neyland a Doc Penfro, bellach yn ffurfio cymunedau ôl-ddiwydiannol. Mae'r canolbwynt diwylliannol yn dal i newid, gyda hamdden pysgota a marina'n ei nodweddu.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Datblygiad modern sydd bennaf yn y dref sy'n difetha'i chymeriad hanesyddol.
- Diffiniwyd y rhan fwyaf o'r ymyl trefol (a thir amaeth cyfagos) yn dda, er y rheolwyd cyrion y dref tua'r gorllewin yn wael.
- Dylanwadwyd ar y cymeriad diwylliannol at ei gilydd gan ddirywiad yn yr 20^{fed} ganrif gyda materion cymdeithasol ôl-ddiwydiannol yn deillio o ddiffyg cyfle economaidd.
- Trwy ddal i ehangu'r dref daeth datblygiad tai modern, yn bennaf heb ystyried y craidd hanesyddol.
- Gwair wedi'i dorri yw llecynnau glas yn gyffredinol ac fe leihawyd budd bioamrywiaeth.
- Mae ailddatblygu'r iard longau wedi canolbwyntio ar ddatblygiad hamdden, manwerthu a phreswyl gan symud o'i dibenion gwreiddiol i gynnal hyfywedd i'r dyfodol.
- Mae datblygu tyrbinau gwynt oddi allan i'r ardal yn effeithio ar olygfeydd i'r dwyrain ac oddi yno.



Datblygiad tai newydd yn nwyrain Aberdaugleddau




Rheoli man amwynder yn y Rhathlan

Y Dyfodol

- Mae rhannau isel y dref yn debygol o fod mewn perygl llifogydd ychwanegol.
- Mae canol y dref yn fwyfwy agored i newidiadau mewn arferion siopa.
- Swyddogaeth a chwmpas newidiol gweithgaredd yn yr hen iard longau / marina a'r gallu i ddylanwadu ar ffyniant y dref.
- Angen cynyddol i fuddsoddi mewn tai hŷn.



Datblygiad modern anystyriol



Fe all fod dirywiad trefol ynghanol y dref

Pethau Sensitif Allweddol

- Cymeriad ar hyn o bryd dan ddylanwad cysylltiadau morol a chysylltiad â'r arfordir.
- Mae cynllun strydoedd hanesyddol y dref ac adeiladau hanesyddol yr Ardal Gadwraeth yn teimlo newidiadau amhriodol i'w hadeiladwaith a manylion hanesyddol.
- Gweithgaredd ardal y porthladd a'r marina a'i allu i gynorthwyo gweithgarwch economaidd ehangach.
- Effaith weledol tyrbinau gwynt mawr ac adeileddau fertigol ar y golygfeydd allan o'r dref.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Atal ymledu di-drefn ar yr ymyl trefol trwy gadw neu gyflwyno terfynau pendant.
- Gwarchod elfennau adeiledig traddodiadol a chymeriad y dref.
- Gwella'r berthynas rhwng yr harbwr a chanol y dref.
- Hybu arferion garddio ystyriol o fywyd gwyllt a chadw a chyfoethogi darnau bach o gynefin sy'n weddill trwy reoli'n wahanol.
- Rheoli tir amwynder cyhoeddus a phreifat yn well i hybu bioamrywiaeth.
- Dylai datblygiad newydd barchu cyd-destun a chynllun hanesyddol y dref, cymeriad ac ansawdd adeiladau hanesyddol presennol lle mae cysylltiad gofodol neu weledol.



Craidd hanesyddol Sioraidd



Ymyl trefol dwyreiniol pendant



Castle Pill yn arwain at yr Aber

ACT Awdurdodau Cyfagos

PCNPA: SCA 32 Aberdaugleddau Mewnol

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 23: YMYL DIWYDIANNOL DE CLEDDAU

Lleoliad:

Mae'r ACT hon ar ymyl deheuol Aber Cleddau i'r gorllewin o Ddoc Penfro a chyferbyn ag Aberdaugleddau a Neyland dros y dŵr.



Yr olygfa i mewn i'r orsaf drydan o Drwyn Pennar



Golygfa o'r orsaf drydan a'r burfa o Drwyn Pennar



Golygfa o'r orsaf drydan o'r de gyda'r Aber yn y cefndir

Disgrifiad Cryno:

Yr ACT hon yn gyffredinol yw safleoedd diwydiannol ar raddfa fawr ar ymyl yr Aber a thir arfordirol rhyngddynt, gan gynnwys cainc lanw a chuddfan gwyllo adar. Maent yn ffurfio rhan o rwydwaith mwy o safleoedd diwydiannol mawr o gwmpas yr Aber.

Nodweddion Allweddol

- Yn nhermau daeareg, peirianeg sydd dan y safleoedd diwydiannol. Mae'r tir sy'n gwahanu'r safleoedd datblygedig yn ffurfio clogwyn, llethr arfordirol a thraethlin o garreg laid Ddefonaidd gyda darnau bach o Hen Dywodfaen Coch tua'r tir.
- Mae'r burfa a'r orsaf drydan sy'n nodweddu'r ardal hon yn cyfrannu at y gweithfeydd diwydiannol mawr o gwmpas yr Aber. Yn gwahanu'r burfa o'lew a'r orsaf drydan fawr drechol ar y glannau mae

darn cul o dir amaeth a choetir ar glogwyni arfordirol. Ar wastadeddau llaid rhynglanwol ac o forntenydd lleol yr Aber (Gwastatir Pwllcrochan) mae adar yn porthi'n aml ar drai ac mae'n ddarn dymunol o ddŵr ar benllanw.

- Mae golygfeydd benthg allan i'r Aber yn cynnwys golygfeydd dros Ddoc Penfro ac Aberdaugleddau, gan gynnwys golygfeydd o drefi, cylchoedd diwydiannol mawr a'r Aber naturiol.
- Y patrwm tirwedd cryfaf, yn cael ei gynrychioli gan adeileddau helaeth y burfa olew a'r orsaf drydan yw yn bendant a chydlynol dros ben heb lawer o dystiolaeth o'r dirwedd o gaeau rheolaidd a phatrwm o ddatblygiad gwledig ar wahân oedd yno o'r blaen. Goroesodd henebion rhestredig lloc amddiffynedig Gwersyll West Popton, amgaead a chloddwaith, a Gwersyll West Pennar oddi allan i derfynau allanol y diwydiant. Mae'r ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Daugleddau.
- Diffiniwyd y dirwedd ddiwylliannol yn gryf gan y dirwedd fodern amlwg iawn o ddiwydiant a dosbarthu ynni sy'n creu mynedfa o bwys ac yn cloi economi presennol Sir Benfro i economi'r byd. Tra bo'r elfen hon yn hanfodol i ffyniant yr ardal a datblygiad hunaniaeth ddiwylliannol Sir Benfro, mae'n agored i ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd byd-eang.
- Dylanwadwyd yn drwm ar gynefinoedd yn y fan hon ar yr arfordir gan adeiladu'r burfa'r orsaf drydan yma er rhywyddineb cludiant ar y môr a gollyngiadau i'r amgylchedd morol. Maent wedi cael effaith angerddol ar fioamrywiaeth yr ardal. Bydd darnau o brysgwydd trwchus, llain gul o goed ar yr arfordir a glaswelltir wedi'i led-wella o werth ecolegol i rai rhywogaethau. Mae darnau o laid rhynglanw, graean a chlogwyni lle mae amlygrwydd a throchi, ewyn môr a gwynt yn dylanwadu'n fawr ar blanhigion ac anifeiliaid.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru'n mynd heibio tua'r tir o gwmpas yr orsaf drydan ac yn ailymuno â'r arfordir drwy Bwllcrochan lle mae'n dilyn y llain arfordirol gul trwy goetir a chaeau rhwng y burfa olew ac ymyl y clogwyn, gan ganiatáu golygfeydd agos o dirwedd ddiwydiannol y burfa ac allan i'r Aber.

Rhinweddau Allweddol

Mae graddfa datblygiad diwydiannol a llawer o dyrbinau mawr yn yr Aber yn creu cymeriad diwydiannol cryf sy'n trechu popeth yn yr argraff a gaiff ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Nid oes modd gwahanu golygfeydd deniadol allan o'r ardal i'r ddyfrffordd, tir amaeth, anheddau a chlogwyni o'r ymdeimlad o ddatblygiad diwydiannol ar raddfa fawr a'r golygfeydd gormesol sy'n eu difetha. Maent yn boddi unrhyw ymdeimlad o lonyddwch gydag aroglau, synau a symudiadau diwydiannol yn eu cyfnerthu'n gyflym ac yn peri bod diwydiant yn drech nag amgylchedd morol adloniadol. Fodd bynnag, mae'r dirwedd ddiwydiannol yn creu ymdeimlad cryf o le, hefyd dan ddylanwad cyfeiriadau diwylliannol trefi'r Aber. Ar y draethlin, fodd bynnag, mae amgylchedd naturiol o laid rhynglanw gyda golygfeydd a seiniau newidiol (yn enwedig galwadau hiraethus adar hirgoes ar adegau) yn gyffredinol ddymunol mewn golygfeydd agos.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae'r ardal yn drwm dan ddrymiau metel ac adeileddau eraill o goncrid a metel cysylltiedig â gwaith y burfa olew a'r orsaf drydan.
- Mae llain gul o dir wrth lan y môr, rhwng y safleoedd diwydiannol, o gwmpas cainc lanw; llain gul o goetir a phrysgwydd a chaeau pori.
- Cadwyd henebion hanesyddol oddi allan i'r ardaloedd diwydiannol datblygedig.
- Cadwyd llwybr yr arfordir yn agos at y lan drwy ran o'r ardal.



Yr olygfa i mewn i'r ardal hon o fan ger Rhosgylyddwr tua'r de




Golygfa adwy cae o'r orsaf drydan o'r gorllewin

Y Dyfodol

- Chwilio am gyfleoedd i wella'r dirwedd o gwmpas y gweithfeydd diwydiannol ac ystyried dewisiadau ar gyfer defnydd arall neu adfer y safleoedd os caiff y gweithfeydd eu digomisiynu.
- Fe all hefyd fod yn briodol trefnu cofnodi'r burfa cyn ei digomisiynu a'i dileu yn y dyfodol.
- Cadw unrhyw nodweddion traddodiadol sy'n aros yn y cylch gan gynnwys terfynau caeau traddodiadol, safleoedd hanesyddol a nodweddion naturiol o werth ecolegol fel y mornant a gwastadeddau llaid.
- Caniatáu i ddarnau o brysgwydd gynyddu er mwyn creu cynefin gwerthfawr i rywogaethau.
- Pwysau i ddatblygu sy'n ceisio manteisio ar y cymeriad diwydiannol a'r glannau.



Golygfa o'r orsaf drydan tua'r gogledd gyda'r arfordir



Un o forentydd cul yr Aber

Pethau Sensitif Allweddol

- Parhad prosesau rhynglanwol naturiol ar y gwastadeddau llaid sy'n agored i lygredd.
- Mynediad y cyhoedd at ymyl yr arfordir ar hyd Llwybr Arfordir Cymru.
- Effaith weledol a synhwyrdd y datblygiadau diwydiannol hyn o fewn yr ardal ehangach

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Dylid gwarchod y gwastadeddau llaid agored gyda'u llif llanwol, gan gynnwys rhag digwyddiadau llygru, a dylent aros yn rhydd o unrhyw forglawdd.
- Sicrhau bod llwybr yr arfordir yn aros ar agor i ddefnyddwyr a, lle bo modd, gwella mynediad a hysbysrwydd mewn cysylltiad â safleoedd hanesyddol.
- Cynllunio ar gyfer digomisiynu hirdymor.



Yr olygfa i'r de i mewn i ardal gyfagos o Valero



Ymyl diwydiannol prin o blanhigion



Yr olygfa allan o hen eglwys y Santes Fair Pwllcrochan, Gradd II restredig, yn cynnwys adeileddau fertigol mewn golygfeydd agos.*

ACT Awdurdodau Cyfagos
PCNPA: ACT 7 Penrhyn Angle

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 24: GWASTADEDDAU LLAID DE CLEDDAU

Lleoliad:

Mae'r ardal hon ar gyrion deheuol Doc Penfro ac fe'i ffurfiwyd o'r gwastadeddau llaid rhynglanwol lle mae ceg Afon Penfro'n cyrraedd Aber Cleddau.



Yr olygfa o'r ddyfrffordd o fan ger Cil-maen



Yr olygfa i'r de-orllewin dros y ddyfrffordd o Bennar



Yr olygfa i gyfeiriad Cil-maen o Bennar

Disgrifiad Cryno:

Mae'r amfae eang hwn, gydag Afon Penfro'n llifo iddo, yn ffurfio basn amgaeedig bron gyda mynedfa gul i aber Afon Cleddau. Gwastadeddau llaid rhynglanwol a chlytiau o raeon a pheth morfa heli ymylol ar drai sydd yma'n gyffredinol.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaear sylfaenol yw llifwaddod aberol.
- Ar drai, gwastadeddau llaid deniadol sy'n nodweddu'r aber yn aml gydag adar i'w gweld yn porthi a darn braf o ddŵr ar benllanw. Mae'r ychydig reolaeth yn briodol ac yn adlewyrchu bob prosesau naturiol dyddiol y llanw.

- Mae'r gwastadeddau llaid rhynglanwol yn creu tirwedd olygfaol ac ardal bywyd gwyllt ac mae'n ymestyn i'r dyffryn coediog isel tua'r gorllewin gyda'i llednant fechan yn llifo i'r aber ac mae'n ffurfio perthynas agosach gyda'r parth rhynglanwol na'r wlad oddi amgylch.
- Ni aseswyd y parth rhynglanwol mewn cysylltiad â'r amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, caiff y nant ei chynnwys o fewn yr amgylchedd hanesyddol ehangach, er nad oes unrhyw gofnodion yn dod o fewn ardal gul y nant hon.
- Cyfyngwyd y ddaear i aber morfa heli ac ni nodwyd unrhyw dirffurfiau arwyddocaol.
- Yn ddiwylliannol, mae'r amgylchedd dŵr yn gysylltiedig â harbwr dŵr dwfn naturiol yr aber a'i swyddogaethau cyfoes, gan gynnwys cyrchfan twristiaeth a hamdden, prif wythien gludiant, llwybr cludwyr olew, harbwr pysgota a'i ddiwylliant arfordirol a morol cyfoethog.
- Ffurfiwyd y cynefin i raddau helaeth o laid a thywod rhynglanw, gyda morfa heli a graean rhynglanwol cyfyngedig. Yn ogystal â chylch ehangach yr aber, mae'r ardal hon yn bwysig ar gyfer cynorthwyo rhywogaethau dyfrol, mamolion ac adar ac mae'n ffurfio cynefin sensitif o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnal nifer o rywogaethau allweddol.

Rhinweddau Allweddol

Mae'r amgylchedd naturiol yn rhoi golygfa braf o'r datblygiad trefol yn yr Aber a lle mae golygfeydd a seiniau newidiol, gan gynnwys seiniau hiraethus adar hirgoes ar drai ac aroglau aberol yn darparu ecosystemau gwerthfawr a phrofiad agos o natur i drigolion ac ymwelwyr. Ar benllanw mae'r cylch yn cynnig darn llonydd o ddŵr a golygfeydd o'r aber o gwmpas. Ymhlith y pethau sy'n lleihau hyn mae diwydiant trwm, a pheilonau mawr ar hyd yr aber a datblygiad trefol sy'n dod yn agos at yr ardal mewn mannau. Mae cysylltiad gweledol-ddiwylliannol amlwg rhwng y dŵr a'r tir oddi amgylch gan gynnwys y dirwedd amaethyddol ac ardaloedd datblygedig.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Dim llawer o reoli'r amgylchedd dŵr a diffyg ymyrryd â'r llinell ddŵr yn gyffredinol.
- Defnyddiau adloniadol disylw.
- Datblygodd yr olygfa allan o'r ardal gyda dyfodiad datblygiadau ynni modern.
- Ardal allweddol o gynefin rhynglanwol.



Traethell ger Pennar



Yr olygfa i mewn i Bennar oddi ar draethell

Y Dyfodol

- Pwysau ychwanegol i ddatblygu, gan gynnwys datblygiadau preswyl, adloniadol a chysylltiedig ag ynni i gyfeiriad y glannau.
- Newidiadau mewn rheoli amgylcheddol os bydd defnydd y ddyfrffordd yn newid.



Yr olygfa i mewn i Bentlass



Peilonau ar draws y dirwedd ddeheuol

Pethau Sensitif Allweddol

- Dylid cadw nifer y cychod sy'n angori'n fach er mwyn sicrhau bod rheoli'n cynnal gwerth gweledol, naturiol ac ecolegol.
- Fe all fod effaith ecolegol o ddatblygiad diwydiannol yn y ddyfrffordd a pherygl llygredd.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Cynnal parhad y prosesau rhynglanwol di-dor.
- Gwarchod yr ardal rhag digwyddiadau llygru all ddeillio o weithgareddau diwydiannol neu ddociâu o gwmpas er mwyn cadw gwerth yr ardal i fywyd gwyllt a'r nodweddion synhwyradd cadarnhaol.



Yr olygfa allan o gylch trefol Doc Penfro



Ymyl coetir y fornant




Yr olygfa o fan ger Cil-maen

ACT a SCA Awdurdodau Cyfagos
PCNPA: Ardal Nodwedd Morwedd 32 Aberdaugleddau Mewnol

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 25: HUNDLETON A LLANDYFÁI

Lleoliad:

Mae'r ardal yn ne Sir Benfro ac ar bwys, ond heb gynnwys, cylchoedd adeiledig Penfro a Doc Penfro a datblygiadau diwydiannol yn aber Cleddau. Mae llawer o'r ardal hon am y ffin â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.



Yr olygfa allan o Eglwys Wynnio i gyfeiriad Sain Pedrog tua'r dwyrain



Yr olygfa o'r Ffordd Las drosodd i Cosherton



Chapel Hill o fan ger Eglwys Wynnio

Disgrifiad Cryno:

Yr ACT hon yn gyffredinol yw brithwaith tir isel bryniog gydag anheddau gwledig bach gwasgareddig a ffermdai ar wahân. Mae anheddau'n cynnwys Hundleton a Maidenwells, Llandyfái, Milton a Cosherton. Mae peilonau mawr yn croesi'r ardal.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearog yn bennaf yw brigiad eang o Hen Dywodfaen Coch (Silwraidd – Defonaidd). Mae calchfaen carbonifferaidd ac amryw leiniau cul o lechi a thywodfeini Ordofigaidd a Silwraidd yn

bresennol hefyd. I'r dwyrain ac i'r gogledd mae cribau tarenni isel i'w gweld. Arweiniodd prosesau afonol at ddyddodi gwaddod rhewlifol neu ôl-rewlifol diweddar.

- Cefn gwlad yw mwyafrif yr ardal gydag anheddau bach lleol a phentrefannau gwledig, a ffermydd ar wahân yn britho'r dirwedd amaethyddol. Carreg wedi'i rendro yw mwyafrif y tai annedd gyda thoeau llechi o arddull draddodiadol.
- Y dirwedd amaethyddol yw caeau bach a ffyrdd mân. Yn y dwyrain, gwrychoedd yw terfynau caeau, gyda muriau carreg yn fwy cyffredin mewn mannau eraill a rheolaeth amrywiol. Mae adeiladau fferm modern yn amlwg ac yn gyffredinol yn ffurfio casgliad cnewyllol ochr yn ochr ag adeiladau traddodiadol.
- Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd Aberdaugleddau yn gorgyffwrdd yng ngogledd yr ardal. Ymhlith elfennau allweddol yr amgylchedd hanesyddol mae henebion cynhanes a'r Oes Efydd, adeiladau canoloesol, a llawer o anheddau bach o darddiad canoloesol. Daw adeiladau fferm yn bennaf o'r 19^{eg} ganrif. Anheddiad hirgul trwy gynllun sy'n nodweddu Cosheston tra bo Llandyfái'n gnewyllyn bach o gwmpas eglwys blwyf ganoloesol fach restredig. Mae Ardaloedd Cadwraeth yn y ddau anheddiad ac mae parciau a gerddi cofrestredig yn yr ardal, gan gynnwys Orierton gyda'i barcdir a gerddi.
- Yn ddiwylliannol mae'r ardal hon yn rhan o gylch ehangach o dir amaeth bras, cymunedau Saesneg ac ehangu preswyl a masnachol. Mae rheilffyrdd a phriffyrdd yr A40 a'r A477 yn croesi'r ardal ac yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith ffyrdd Traws-Ewropeaidd sydd â phwysigrwydd cyfoes.
- Ffurfiwyd cynefin tirwedd i raddau helaeth o laswelltir wedi'i wella mewn tirwedd frith o gaeau gyda thir â, adeiladau a choetir, gan gynnwys planhigfa gollddail a chonwydd hirgul yn ffurfio'r mymryn lleiaf o gynefin. Fe allai'r ardal hon gynnal rhai o rywogaethau adar ac ystlumod mwy cyffredin y Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth. Gwrychoedd sydd i'w amlaf ledled yr ardal gydag ychydig ffensys pyst a gwifrau.

Rhinweddau Allweddol

Mae llygredd goleuni lleol yn anheddau Llandyfái a Milton, ac o Benfro i'r gogledd o derfyn yr ardal yn effeithio arni. Mae dylanwad arfordirol cryf ar y dirwedd wledig agored gyda rhai darnau'n rhoi golygfeydd o dirwedd wyntog agored i ddwyrain yr ardal a sefyllfa uchel yn cynnig golygfeydd o'r aber tua'r gogledd. Mae peilonau trydan mawr sy'n croesi'r ardal yn amharu ar olygfeydd fel y gwna golygfeydd o'r adeileddau diwydiannol ar hyd yr Aber ac, yn fwy diweddar, tyrbinau mawr ar y lan ogleddol. Yn croesi'r ardal mae priffyrdd sy'n cysylltu Sir Benfro â'r byd ehangach ac yn dod â sŵn ac effeithiau gweledol i gylchoedd eang. Fodd bynnag, nid ydynt yn effeithio'n sylweddol ar natur yr ardal sy'n cadw dylanwad arfordirol cryf mewn mannau.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Gorgyffwrdd datblygiad diwydiannol i'r gogledd o'r ardal.
- Cyflwyno peilonau trydan mawr ar draws y dirwedd.
- Datblygwyd parciau haul ar raddfa fawr i'r de o'r burfa, ac mae datblygiadau tyrbinau mawr yn taro ar y dirwedd.
- Cyflwyno priffyrdd sy'n croesi'r ardal ac sy'n dod ag effeithiau gweledol a sŵn.
- Nid yw datblygiad modern yn gyffredinol wedi effeithio'n sylweddol er gwaeth ar graidd hanesyddol yr anheddau.
- Mae llygredd goleuni'n effeithio ar yr ardal o drefi a datblygiad diwydiannol tua'r gogledd, ond mae'n gyfyngedig tua'r de.



Yr olygfa i gyfeiriad yr Aber tua'r de



Pentref Cosheton

Y Dyfodol

- Pwysau am ragor o adeileddau fertigol mawr yn y dirwedd.
- Pwysau cynyddol i ddatblygu ac ehangu cylchoedd adeiledig i'r dirwedd.
- Newidiadau mewn rheoli amaethyddol a'r effaith o ganlyniad ar batrwm a therfynau caeau'r ardal.



Peilonau ger Llandyfái



Yr olygfa o'r Ffordd A i gyfeiriad Court Hotel Llandyfái

Pethau Sensitif Allweddol

- Adeiladau traddodiadol a golygfeydd o'r ddyfrffordd tua'r gogledd.
- Byddai cyflwyno rhagor o adeileddau fertigol mawr yn anghydnaws â'r brithwaith amaethyddol, yr adnodd hanesyddol cyfoethog a'r dirwedd gartrefol.
- Mae'r brithwaith amaethyddol yn agored i newidiadau ym mhatrymau a therfynau caeau trwy ddwysáu arferion amaethyddol.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Dylid gwarchod golygfeydd allan o'r ardal ac amrywiaeth adeiladau traddodiadol oherwydd bod y rhain yn cyfoethogi cymeriad yr ardal.
- Dylid gwarchod, cadw a rheoli'r gyfundrefn llain-gaeau hanesyddol a therfynau caeau sydd wedi goroesi gan gynnwys muriau carreg.
- Bydd gofyn ystyried ehangu anheddau a datblygu gwasgaredig yn ofalus er mwyn cynnal cymeriad ac amgylchedd hanesyddol adeiladau ac Ardaloedd Cadwraeth.
- Rheoli codi adeileddau fertigol ychwanegol yn yr ardal i sicrhau effaith dderbyniol ar olwg a chymeriad tirwedd.



Parc haul ger Rhosgylyddwr



Ardal adloniadol ger y burfa




Adeilad traddodiadol yn Llandyfái

ACT Awdurdodau Cyfagos
PCNPA: ACT 6 Meysydd Tanio Castellmartin / Merrion; ACT 4 Maenorbŷr / Freshwater East

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 26: MAENCLOCHOG

Lleoliad:

Ar ymyl deheuol Mynydd Preseli ac i'r gogledd-ddwyrain o Hwlfordd, mae'r ardal yn cynnwys anheddau Maenclochog a Llangolman. Mae ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn union i'r gogledd.



Yr olygfa i'r dwyrain ar draws yr ardal a'r Parc Cenedlaethol yn y cefndir



Yr olygfa i'r dwyrain o fan i'r gogledd o Faenclochog



Yr olygfa i mewn i Faenclochog o'r gorllewin

Disgrifiad Cryno:

Mae'r ACT yn gyffredinol yn rhan o gylch ehangach o dirwedd amaethyddol ucheldir gyda ffermydd ac anheddau gwasgaredig, gan gynnwys Maenclochog. Yma mae coed aeddfed mewn gwrychoedd a lleiniau coetir yn aml ar hyd cymoedd bach a chellioedd bach i gysgodi ffermdai. Mae planhigfeydd conwydd yn ychwanegu at gysylltiad y dirwedd â'r ucheldir tra bo golygfeydd o Fynydd Preseli'n ychwanegu at yr ymdeimlad o le.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearog sylfaenol yn bennaf yw llechen Ordofigaidd waddodol sy'n ffurfio tir isel bryniog a chymoedd hiciog yn draenio i Gledau Ddu a phrosesau ffinrewlifol y gorffennol. Yn nodweddu'r gogledd mae darnau o lethrau ucheldir gyda dyddodion ffinrewlifol.
- Yn yr anheddau mae defnydd amrywiol o ddeunyddiau gan gynnwys adeiladau carreg traddodiadol wedi'u rendro a rhai adeiladau amaethyddol modern ar raddfa fach mewn lle da gyda llenfetel nad ydynt yn gyffredinol amlwg yn y dirwedd. Anheddiad hirgul traddodiadol yw Maenclochog. Fodd bynnag, y patrwm anheddu'n bennaf yw ffermydd, bythynnod a thai gwasgaredig. At ei gilydd, brodorol yw ffermdai o garreg wedi'i rendro neu garreg noeth o'r 19^{eg} ganrif.
- Mae golygfeydd i mewn i'r ardal ac allan ohoni'n cynnwys ffermydd gwasgaredig, coedwig a phrysgwydd o fewn y dirwedd amaethyddol gyda golygfeydd benthyg deniadol o Fynydd Preseli tua'r gogledd yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le, fel y gwna'r patrymau caeau mân ar lethrau'r ucheldir a golygfeydd allan i gyfeiriad yr arfordir tua'r de. Draw o'r cymoedd cul coediog ffurfiwyd yr ardal o gaeau bach afreolaidd a rheolaidd o fewn cloddiau terfyn pridd gyda gwrychoedd arnynt yn bennaf, ond mae cloddiau carreg a phridd a charreg a chloddiau wyneb carreg yn bresennol hefyd. Mae llain-gaeau i'w gweld, yn enwedig i'r gorllewin o Faenclochog. At ei gilydd, mae'r gwrychoedd ar y cloddiau'n cael eu rheoli'n dda ond mae rhai'n wael gyda bylchau'n ymddangos, a ffensys pyst a gwifrau ar ben cloddiau i atal anifeiliaid.
- Mae gofalu ychydig am ddarnau o brysgwydd a choetir yr ucheldir yn briodol gyda thiroedd amaethyddol amgaeedig isel mewn cyflwr gwell yn cael eu rheoli'n ddwys yn ategu hynny. Ar y cyrion deheuol, mae cyfres o ddyffrynnoedd coediog yn porthi Cledau Ddu gyda gorchudd coetir bob yn ail â ffermydd gwasgaredig. Mae cymeriad y cymoedd yn gysgodol a llonydd gyda choetir llydanddail a theimlad ucheldirol.
- Mae'r dirwedd hanesyddol yn cynnwys henebion rhestredig niferus gan gynnwys safleoedd cynhanesyddol, canoloesol ac ôl-ganoloesol ac adeiladau rhestredig. Mae'r ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Preseli.
- Yn ne'r ardal, defnydd tir amaethyddol bron yn llwyr yw glaswelltir amgaeedig wedi'i wella gydag ychydig iawn o borfa arw neu dir â. Tuag at lethrau Mynydd Preseli ac mewn pantiau gwlyb, mae pori garwach a thir brwynog yn parhau. Cyfyngwyd cysylltiadau cludiant yn gyffredinol i lonydd a llwybrau er bod ffyrdd B yn croesi'r ardal.
- Yn ffurfio rhan o ardal ddiwylliannol eithriadol Mynydd a Charnau Preseli, mae'r ardal yn cadw ymdeimlad cryf o le. Mae yma ddefnyddiau adloniadol a chysylltiad â cherrig gleision Côr y Cewri.

Rhinweddau Allweddol

Mae cysylltiadau diwylliannol cryf gyda chymunedau amaethyddol a Chymraeg clòs yn creu ymdeimlad cryf a pharhaol o le. Mae ymdeimlad o fywyd hirsefydlog a garw mewn cymunedau lle mae datblygiad yn cadw'i raddfa a chymeriad traddodiadol. Caiff y dirwedd ei rheoli i raddau ac mae'n cadw'i theimlad ucheldirol yn enwedig yng nghysgod Mynydd Preseli lle mae planhigion a choed a gamwyd gan y gwynt yn creu ymdeimlad o ddinoethiad. O'r tir uchel yn yr ardal mae golygfeydd allan tua'r de'n banoramig ac yn cwmpasu'r gwastadeddau brith. Yng ngogledd yr ardal, mae'r cymeriad ucheldirol yn cael ei atgyfnerthu gan olygfeydd i Fynydd Preseli sy'n creu cefndir o gwm dramatig i deithwyr ar hyd darnau cul o ffordd. Yn cyfannu llonyddwch yr ardal gyfan mae seiniau naturiol da byw a'r gwynt.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae cyflwyno planhigfeydd conwydd i'r dirwedd, a darnau o glirio, wedi effeithio ar y cymeriad naturiol.
- Mae ffermydd gydag adeiladau amaethyddol bach a chnewyllol yn niferus drwy'r dirwedd ac yn creu ymdeimlad o ffermydd bach clòs.
- Yn gyffredinol mae diffyg adeiladau modern a datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr yn yr ardal.
- Mae datblygiad hirgul Maenclochog yn gwasanaethu'r cylch lleol, gydag amrywiaeth fywiog o wasanaethau a chyfleusterau.



Adeiladau fferm yng ngogledd yr ardal



Yr olygfa i'r gogledd i gyfeiriad Mynydd Preseli

Y Dyfodol

- Mae undod y dirwedd yn agored i ddwysáu amaeth a chreu ffermydd mawr trwy foderneiddio.
- Posiblirwydd effeithio ar y Gymraeg a'r dirwedd ddiwylliannol.
- Tirweddau agored yn dioddef llygredd goleuni ac effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy o faint amhriodol.



Yr olygfa i'r gogledd-ddwyrain allan o'r ardal



Yr olygfa i mewn i gymoedd coediog tua'r de

Yr

Pethau Sensitif Allweddol

- Erydu cymeriad hanesyddol yr ardal gan gynnwys asedau hanesyddol, terfynau caeau, ac adeiladau gwerinol gan gynnwys adeiladau mewn ffermydd bach.
- Mae adeiladau ffermydd hanesyddol yn ffurfio cydran bwysig o'r dirwedd hanesyddol hon.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Ailddechrau rheoli gwrychoedd lle rheolwyd terfynau caeau'n wael.
- Ystyried priodoldeb planhigfeydd conwydd yn y dirwedd.
- Gwarchod darnau o borfa arw ucheldirol.
- Gwarchod a chadw elfennau cymeriad hanesyddol yr ardal, gan gynnwys tirwedd y caeau, safleoedd ac adeiladau hanesyddol a therfynau caeau.
- Gwrthwynebu datblygiad a fyddai'n cael effeithiau negyddol ar y gymuned.



Lôn sengl ar hyd ucheldir yr ardal



Siop leol ym Maenclochog



Coed yn y clawdd

ACT Awdurdodau Cyfagos
PCNPA: ACT 27 Mynydd Preseli